YSGOL BRYNREFAIL

**Pwnc** / *Subject* – **GWAITH CWRS CELF/ART COURSE WORK**
**Themau**/*Theme* – **PENGLOGAU/SKULLS**
**Blwyddyn** / *Year* – **10 Tymor 1**

**Y tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w ddatblygu;**
*During this term: Skills, Information and Understanding to be developed;*

**Uned Penglogau/Skulls Unit (4 prif tasg asesu)**
**Sgiliau lluniadu uniongyrchol/first hand observational drawing skills**

Ar gychwyn blwyddyn 10 mae'r disgyblion yn bennaf yn ffocysu ar wella eu sgiliau arlunio sylfaenol. Maent yn astudio technegau llunio uniongyrchol drwy ganolbwyntio ar linell, ton a ffurf eitemau, fel gwydr/metel a phenglogau. Mae cyfle i ymchwilio a dadansoddi gwaith arlunwyr eraill sydd yn defnyddio'r un themâu o eitemau. Yn dilyn yr ymarfer mae'r disgyblion yn cyfansoddi lluniad bywyd llonydd eu hunain gydag eitemau 3D o'r dosbarth.

At the beginning of year 10 the pupils mainly focus on improving their basic drawing skills. The pupils study techniques of first hand observational drawing by concentrating on the line, tone and form of objects, such as skulls and glass/metal ware. There is an opportunity to research and analyse the work of other artists who use the same theme of objects. Following this practise there is a chance to compose their own still life drawing using 3D items from the classroom.

**Geiriau / Termau Allweddol;** *Key Terms / Words;*

Elfennau - Llinell, aneglur, rheoledig, crwm, lletraws, llaw rydd, llorweddol, geometrig, crwydrol, trwchus, tenau a fertigol.
Gwead - Garw, anwastad, crychlyd, gwastad, lledraidd, garw, sgleiniog, llyfn, meddal a gludiog.
Lliwiau - Llachar, tawel, clir, oer, pŵl, cyffrous, gorwych, amryliw, distaw, llwydaidd, cysefin, eilaidd, tawel a chynnes.
Siâp a Ffurf - Afluniedig, gwastad, geometrig, trwm, ysgafn, llinol ac organig.
Gwerthoedd - Tywyll, golau, cydbwysedd, cyferbyniad, harmoni, patrwm, ailadrodd, rhythm, undod, amrywiaeth a chyfrwng.
Gofod - Dwfn, gwastad, negyddol/cadarnhaol, agored a bas.
Themâu - Pedair elfen, dinaslun, hwyliau, tirlun, portread/hunanbortread, morlun, naratif a bywyd llonydd.
Arddull neu gyfnod - Haniaethol, hanesyddol, clasurol, naif, anwrthrychol, realistig, rhamantaidd, Dadeni, Pop, Modern a mynegiannol Haniaethol.
Cyfryngau - Sialc, pensil, pensil lliw, conte, inc, pastel olew, ffotograffiaeth, argraffu, siarcol, paent acrylig a dyfrlliw.
Techneg - Cerfio, collage, peintio, gwneud printiau, ffotograffiaeth, cerflunio, croeslinellu, chiaroscuro a lluniadu.

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 1** / *Week 1 Learning Outcomes*<br><br>**<u>TASG ASESU 1-PRAWF LLUNIADU PENGLOG MANWL (PENSIL YN UNIG)</u>**<br>Defnyddio set o bensiliau B i 6B yn y braslyfrau A3 i lunio'r penglog. Mae angen ei wella yn y wers nesaf gan weithredu ar y targed a osodir.<br>**TASG -** Rhannau o benglog wedi eu llunio mewn 10 munud<br>• Allu rhoi ffocws penodol ar ddarn o waith am gyfnod hir o arsylwi<br>• Ddatblygu sgiliau blaenorol o lunio'n uniongyrchol<br>• Fod wedi sylwi ar tôn, cysgod a manylion y gragen o dan sylw<br>• Allu weithredu ar darged personol i wella safon eu gwaith<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darllen asesiadau athro/cyfoedion ar gyfer ail ddrafftio/gweithredu | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill.<br>• Rheoli pensiliau ar bwysedd gwahanol<br>• Amrediad ton<br>• Mesur yn gywir<br>• Adnabod gwead a patrwm ar yr arwyneb<br>• Arsylwi manylder | Peintio 3 ffrwyth yn y braslyfr A5 gyda dyfrlliw. |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 2** / *Week 2 Learning Outcomes*<br><br>**TASG -** Llunio penglog mewn 4 bocs gyda gwahanol liwiau o feiro/fine liner<br>**TASG -** PRAWF YN Y NEUADD-Lluniadu Sgerbwd yn uniongyrchol<br>45mun-Llunio'r sgerbwd gyda pensil yn unig<br>45mun-Llunio'r sgerbwd gyda fine liner/beiro ddu<br>45mun-Llunio'r sgerbwd ar bapur brown gyda siarcol a sialc gwyn<br><br>**Fframwaith Rhifedd / Numeracy Framework**<br>Defnyddio cyfrannedd a mesuriadau manwl gywir tra'n lluniadu'r sgerbwd | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill.<br>• Mesur cyfrannedd y sgerbwd yn gywir<br>• Arsylwi manylder | Llunio eitem gwydr gyda pensil gwyn yn y llyfrau du |

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 3 -4**/ *Week 3 -4 Learning Outcomes*<br><br>**TASG ASESU 2 -ARBROFI GYDA CYFRYNGAU GWAHANOL LLIW YN LLUNIADU PENGLOGAU**<br><br>Peintiadau<br>Pasteli olew<br>Sialc<br>Inc<br>TGCh<br>Chiaroscuro<br>Gwnio<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darllen asesiadau athro/cyfoedion ar gyfer ail ddrafftio/gweithredu<br>Hunan asesu/Asesu Cyfoedion/Ymateb disgybl<br><br>**Fframwaith Cymhwysedd Digidol** / Digital Competence Framework<br>Defnyddio'r rhaglen Serif Draw I ddelweddau penglog o safon uchel fel 'peintiad' digidol.<br><br>**CYFLE I YMATEB A GWEITHREDU AR TARGEDAU TASG ASESU 1 a 2 ER MWYN GWELLA GRADDAU CYRHAEDDIAD GYDA 2AIL ASESIAD ATHRO.** | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE<br><br>**ASESU CYFOEDION PEER ASSESSMENT**<br><br>**HUNAN ASESU SELF ASSESSMENT** | • Darparu tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang a defnyddio rheolaeth sensitif, er enghraifft, wrth fireinio manylion yn y broses o luniadu, neu ddefnyddio tôn neu liw yn fanwl gywir.<br>• Cyfrwng addas wedi ei ddefnyddio i lunio gyda rheolaeth ardderchog | Peintio 3 deilen wahanol o'r Hydref yn y braslyfr A5 gyda dyfrlliw. Gludo'r dail I mewn gyferbyn a'r peintiadau.<br><br>Llunio eitem metel gyda pensil gwyn yn y llyfrau du |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 5 -6**/ *Week 5-6 Learning Outcomes*<br><br>**TASG ASESU 3-DADANSODDIAD YSGRIFENNEDIG**<br>Dewis un arlunydd sydd wedi peintio bywyd llonydd gyda penglogau-Paul Cezanne , M C Escher, Vincent Van Gogh neu Leonardo Da Vinci<br>Dadansoddiad ysgrifennedig estynedig am un arlunydd penglog<br>1.Ymchwilio y pedawar arlunydd yn fras ar y we er mwyn dewis un iw ddadansoddi'n llawn.<br>2.Drafftio y dadansoddiad ar Word er mwyn iddo gael ei asesu gan yr athro gan gynnwys lluniau or gwaith.<br>3.Argraffu enghreifftiau o waith yr arlunydd mewn lliw ar gyfer arbrofi.<br>4.Dylunio cefndiroedd yn arddull yr arlunydd ar draws 2 dudalen yn y braslyfrau er mwyn gosod y dadansoddiad terfynol arno.<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darparu tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill, gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gyfoethogi eu gwaith eu hunain.<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Dangos dealltwriaeth/adnabod y defnydd o gofod gosodiad y dudalen.<br><br>**Fframwaith Cymhwysedd Digidol** / Digital Competence Framework<br>Defnyddio'r we ar gyfer ymchwilio'r arlunwyr ac argraffu delweddau o safon uchel o beintiadau'r arlunwyr. | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Archwilio amrywiaeth eang o waith a gynhyrchwyd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.<br>• Iaith- Defnydd ardderchog o ansoddeiriau Celf yn addas i bwrpas.<br>• Iaith- Terminoleg pynciol wedi ei ddefnyddio gyda iaith a gramadeg cywir.<br>• Barn personol am y darnau gwaith Celf wedi ei cyfiawnhau gyda rhesymau.<br>• Dealltwriaeth clir o'r testun yn cael ei gyfleu yn y dadansoddiad. | Peintio plyg (folds) mewn ffabrig yn y braslyfr A5 gyda dyfrlliw. |

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 7 -8**/ *Week 7 -8 Learning Outcomes*<br><br>**TASG**-Arbrofi yn arddull yr arlunydd penglogau dewisiol. Argraffu tua 4 enghraifft o beintiadau yr arlunwyr er mwyn rheoli cyfryngau I ail greu yr arddull gan ysgrifennu werthusiad a disgrifio prosesau. Rhaid:<br>• defnyddio cyfrwng gwahanol i lunio/gopio bob enghraifft.<br>• cynnwys stribed o'r lliwiau a ddefnyddiwyd ar yr ochr i ddangos amrediad lliw/ton.<br>• awgrymu sut I wella'r gwaith yn y gwerthuso<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Gwerthuso a disgrifio prosesau. Cymhariaeth o gyfryngau gwahanol a ddefnyddiwyd gyda terminoleg pynciol wedi ei ddefnyddio'n gywir.<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Mesur rhannau o'r delweddau yn fanwl gywir er mwyn eu copio. Ystyried gofod a gosodiad y dudalen.<br><br>**Fframwaith Cymhwysedd Digidol** / Digital Competence Framework<br>Dewis ac argraffu delweddau o safon uchel i'w copio. | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/<br>GRADE | • Mireinio ar waith drwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. Defnyddio'r rhain yn fedrus a diogel i gynyddu potensial creadigol i'r eithaf a chynhyrchu canlyniadau o safon uchel.<br>• Myfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu'r hyn a ddysgwyd, cael mwy o ddealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron. | Llunio 3 eitem gwahanol fel cyfansoddiad o fywyd lonydd gyda pensil gwyn yn y llyfrau du |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 9** / *Week 9 Learning Outcomes*<br><br>**TASG-** Cynllunio'r darn terfynol<br>Creu cyfansoddiadau gwahanol gyda'r sgerbwd, penglogau ac eitemau bywyd llonydd addas yn arddull eu harlunydd dewisiol a'u ffotograffu.<br>Argraffu y ffotograffau a braslunio rhai darnau mewn pensil. Dewis y ffotograff gorau er mwyn ei ddatblygu mewn darn terfynol A3. Esbonio pa chyfryngau fydd yn addas I'w defnyddio.<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Defnydddio geirfa pynciol I gyfiawnhau'r dewisiadau.<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Y defnydd o'r gofod o fewn y cyfansoddiadau byw. Yn gallu ail greu ac adnabod cyfrannedd cyfansoddiad eitamau gan yr arlunwyr gwreiddiol.<br><br>**Fframwaith Cymhwysedd Digidol** / Digital Competence Framework<br>Tynnu ffotograff o'r bywyd llonydd a'I argraffu | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/<br>GRADE | • Cofnodi syniadau, arsylwadau uniongyrchol a mewnwelediadau trwy unrhyw ddulliau addas, yn enwedig lluniadu a ffotograffau.<br>• Defnydd ardderchog o ansoddeiriau Celf wedi eu defnyddio'n addas.<br>• Terminoleg pynciol wedi ei ddefnyddio'n gywir. | Peintio llygaid (sengl neu parau) yn y braslyfr A5 gyda dyfrlliw. |

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 10-11** / *Week 10-11 Learning Outcomes*<br><br>**TASG ASESU 4-DARN TERFYNOL**<br><br>Defnyddio ffotograff personol o'r cyfansoddiad gorau I greu darn terfynol A3 yn arddull yr arlunydd dewisiol Penglogau mewn unrhyw gyfrwng.<br>Datblygu hyder i werthuso ac asesu gwaith eu hunain yn ffurfiol a'r gallu o ddadansoddi'r elfennau positif a negyddol o'r darn terfynol. Gwerthuso i awgrymu gwelliannau posib. Cynyddu dealltwriaeth o amcanion asesu TGAU Celf ar ol cwblhau uned cyfan o'r holl broses creu.<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darllen asesiadau athro/cyfoedion ar gyfer ail ddrafftio/gweithredu<br>Cymhariaeth o gyfryngau gwahanol a ddefnyddiwyd<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Rhifedd-Dangos dealltwriaeth/adnabod y defnydd o gofod yn y gosodiad.<br>Helaethu'r delweddd gwreiddiol (ffotograff) I ffitio'r tudalen A3.<br>Llunio eitemau manwl cywir yn uniongyrchol drwy ystyried cyfrannedd (proportion) yr eitemau a'r gofod rhyngthynt | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/<br>GRADE | • Cyflwyno canlyniadau terfynol sydd yn eu hanfod yn bersonol a llawn dychymyg.<br>• Arddangos tystiolaeth detholus o brosesau meddwl. Cynhyrchu a gwireddu'n effeithiol y bwriadau a nodwyd.<br>• Amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a dulliau cyfathrebu arlunwyr eraill. | Llunio canwyll a ffrwyth gyda pensil gwyn yn y llyfrau du |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 12** / *Week 12 Learning Outcomes*<br><br>**TASG**-Asesu cyfoedion<br><br>Cytuno ar pwyntiau MPLL ar gyfer y darn terfynol penglogau er mwyn asesu cyfoedion ar y taflen asesu gyda targed gwella penodol. Amser I weithredu ar darged y ffrind er mwyn codi safon y darn o waith cyn ei gyflwyno I'r athro am asesiad ffurfiol.<br><br>**CYFLE I YMATEB A GWEITHREDU AR TARGEDAU TASG ASESU 3 a 4 ER MWYN GWELLA GRADDAU CYRHAEDDIAD GYDA 2AIL ASESIAD ATHRO.**<br><br>Datblygu gwybodaeth blaenorol o sut i lunio penglog llwyddianus<br>Ymarfer dealltwriaeth o asesiadau yr athro yn fanwl a gwybod beth a sut i wella'r gwaith<br>Cynyddu'r hyder i weithredu ar dargedau personol er mwyn gwella safon y gwaith a cyrraedd y graddau targed.<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darllen asesiadau athro/cyfoedion ar gyfer ail ddrafftio/gweithredu | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/<br>GRADE<br>**ASESU CYFOEDION PEER ASSESSMENT** | • Defnyddio geifa pynciol tra'n pennu MPLL I'r dasg<br>• Gosod targed mesuradwy ac addas ar y daflen asesu.<br>• Ysgrifennu ymateb sydd yn cyfleu dealltwriaeth or targed a sut I wella. | Cwblhau unrhyw dasgau anorffennedig. Parhau I weithredu ar dargedau personol. |

**Y tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w ddatblygu;**
*During this term: Skills, Information and Understanding to be developed;*

**Uned Portreadau (3 prif tasg asesu) Llunio cyfrannedd cywir gyda grid, TGCh a ffotograffiaeth**
**Portraits Unit (3 assessment tasks) Drawing in proportion with a grid, I.T. and photography**

*Datblygiad o sgiliau arbrofi gyda chyfryngau gwahanol yn defnyddio arlunydd portread fel ysbrydoliaeth ydi'r ail uned o waith. Yn ychwanegol, mae'r disgyblion yn cryfhau eu gallu o ddisgrifio gwaith Celf yn ystod yr uned drwy ysgrifennu dadansoddiad manwl am eu harlunydd . Ar ddiwedd yr uned cynhyrchir darn terfynol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau addas gan ystyried yr ymchwiliad blaenorol.*

*The second unit of work is a development of experimentation skills with different mediums using a portrait artist as inspiration. In addition, the pupils strengthen their ability to describe Art work during the unit by writing an in depth analysis about their artist. At the end of the unit a final piece is produced by using a variety of suitable mediums effectively by taking into consideration the previous research.*

**Geiriau / Termau Allweddol;** *Key Terms / Words;*

Gwead - Garw, anwastad, crychlyd, gwastad, lledraidd, garw, sgleiniog, llyfn, meddal a gludiog.
Lliwiau - Llachar, tawel, clir, oer, pŵl, cyffrous, gorwych, amryliw, distaw, llwydaidd, cysefin, eilaidd, tawel a chynnes.
Siâp a Ffurf - Afluniedig, gwastad, geometrig, trwm, ysgafn, llinol ac organig.
Gwerthoedd - Tywyll, golau, cydbwysedd, cyferbyniad, harmoni, patrwm, ailadrodd, rhythm, undod, amrywiaeth a chyfrwng.
Gofod - Dwfn, gwastad, negyddol/cadarnhaol, agored a bas.
Arddull neu gyfnod - Haniaethol, hanesyddol, clasurol, naif, anwrthrychol, realistig, rhamantaidd, Dadeni, Pop, Modern a mynegiannol.
Cyfryngau - Sialc, pensil, pensil lliw, conte, inc, pastel olew, ffotograffiaeth, argraffu, siarcol, paent acrylig, paent poster a dyfrlliw.
Techneg - Cerfio, collage, peintio, gwneud printiau, ffotograffiaeth, cerflunio, croeslinellu, chiaroscuro a lluniadu.
*Texture – Rough, bumpy, corrugated, flat, leathery, rough, shiny, smooth, soft and tacky.*
*Colours – Bright, calm, clear, cool, dull, exciting, garish, multi-coloured, muted, pale, primary, secondary, subdued and warm.*
*Shape and Form – Distorted, flat, geometric, heavy, light, linear and organic.*
*Values – Dark, light, balance, contrast, harmony, pattern, repetition, rhythm, unity, variety and medium.*
*Space – Deep, flat, negative/positive, open and shallow.*
*Style or period – Abstract, historical, classical, naïve, non-objective, realistic, romantic, Renaissance, Pop, Modern and expressionist.*
*Media – Chalk, pencil, coloured pencil, conte, ink, oil pastels, photography, printing, charcoal, acrylic paint, poster paint and watercolour.*
*Technique – Carving, collage, painting, printmaking, photography, sculpture, crosshatching, chiaroscuro and drawing.*

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 1** / *Week 1 Learning Outcomes*<br><br>**TASG**-Map meddwl- Themau "Fi fy hun".<br>Creu map meddwl gorffenedig ar un neu ddwy dudalen yn arddangos syniadau a delweddau er mwyn dehongli'r themau yn ysgrifennedig a gweledig.<br>Defnyddio dychymyg drwy ddewis ffotograffiau neu frasluniau addas I gyfleu eu personoliaeth eu hunain.<br>**Cyfle I'r athro ail asesu rhai tasgau o dymor 1 sydd wedi eu gwella fel gwaith cartref yn ystod Gwyliau'r Nadolig.**<br><br>***TASK****-Mind map-Theme" Myself"*<br>*Create a completed mind map on one or two pages that presents ideas and images that analyses the theme through text and visually.*<br>*Use imagination when selecting appropriate images or sketches to convey their own personality.*<br>***A chance for the teacher to re-assess the improved tasks from last term that was set as homework over the Christmas Holiday.***<br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darllen asesiadau athro/cyfoedion ar gyfer ail ddrafftio/gweithredu Defnyddio ansodderirau I ddisgrifio eu hunain. *Read teacher assessments/peers to re-drafft/implement. Use adjectives to describe themselves.* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Defnyddio gofod y dudalen yn effeithiol gyda cydbwysedd rhwng y geirfa a delweddau / *Use the space of the page effectively with a balance between the image and text*<br>• Dadansodi eu hunain yn greadigol a positif / *Analyse themselves creatively and positivley*<br>• Cyfuno arddull gyda defnydd unigryw o gyfryngau I gyflwyno / *Combine style with a unique use of mediums to present* | Casglu delweddau a ffotograffiau I ddefnyddio yn y map meddwl. *Collect images and photographs to use in their mind map* |

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 2** / *Week 2 Learning Outcomes*<br><br>**TASG**-Braslun llinell o ffigyrau o fewn y dosbarth Celf.<br>Dangos enghreifftiau llwyddianus o fraslunio gyda beiro, amlinellau ffigyrau a byrddau o fewn y dosbarth.<br>**TASG**-Hunan bortread gyda pensil, mewn drych, heb gymorth.<br>Edrych ar gyfres o hunan bortreadau pensil/inc gan arlunwyr enwog. Trafod y rhesymau pam y cawson eu creu ar sgiliau sydd yn cael eu datblygu drwy lunio person yn uniongyrchol. Ystyried y canlynol cyn cychwyn ar gwaith eu hunain: Sut I osod eu hunain o flaen y drych, pa fath o fynegiad fydd eu nodewddion yn awgrymu a maint/graddfa eu portread.<br><br>***TASK****-Line drawing of figures in the Art classroom.*<br>*Show successful examples of outlined figures and tables within the room through biro sketches.*<br>***TASK****-A self portrait using a mirror, in pencil, without guidance. Look at a series of self portraits drawn by famous artists using pencil/ink. Discuss the reasons they were drawn and the skills that are developed by drawing a person first hand. Consider the following before drawing their own self portrait: How to position themselves in front of the mirror, what facial expression their features will suggest and the size/ratio of the portrait.*<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Mesur cyfrannedd a lleoliad nodweddion y gwyneb yn realistig.<br>*Measure proportion and position features correctly.* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/<br>GRADE | • Rheoli pensiliau ar bwysedd gwahanol<br>• Adnabod gwead a manylder ar eu gwynebau / *Control the pencils at different pressures*<br>• Amrywio'r math o farciau pensil ar y croen, gwallt a gwisg / *Vary the type of marks on the skin, hair and clothing*<br>• Llunio cysgod a goleni I greu effaith 3D / *Draw shadow and light to create a 3D effect* | 1. Llunio hunan bortreadau 5munud, 10munud a 30munud.<br>2. Tynnu ffotograff o bortread personol (ar gyfer y tasg asesu) ar A4<br><br>*1. Draw self portraits 5 mins, 10 mins and 15 mins.*<br>*2. Take a portrait photograph of themselves (for the next task) on A4.* |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 3 -4** *Week 3 -4 Learning Outcomes*<br><br>**TASG ASESU 5 – NODWEDDION Y GWYNEB**<br>Defnyddio enghreifftiau o lygaid, trwynau, clustiau a gwefysau ar onglau gwahanol er mwyn eu copio fel ymarfer ar gyfer llunio gwyneb eu hunain yn y tasgau dilynol. Tudalen dwbl yn gael ei gynhyrchu o'r nodweddion mewn cyfryngau llwyd/du.<br><br>**TASG**-Ymarfer gyda grid helaethu drwy lunio llygaid (gan Van Gogh) ai hunan asesu yn eu gwerthusiad.<br><br>***ASSESSMENT TASK 5-FACIAL FEATURES***<br>*Use examples of eyes, noses, ears and lips on different angles to copy as practise towards drawing their own face in the next task. A double page will be produced of all the features using black and grey mediums.*<br><br>***TASK****-Practise using an enlarging grid by drawing an eye (by Van Gogh) and self assess in the evaluation.*<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Gwerthuso safon eu cyflwaniad ac adnabod eu cryfderau a gwendidau er mwyn dangos gwelliant. Disgrifio sut mae'r defnydd o grid helaethu yn gymorth I lunio.<br>*Evaluate the quality of their achievement and recognise their strengths and weaknesses to show improvement. Describe how using the grid is a support for drawing.*<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Mesur a llunio grid helaethu 1:4 ar y delwedd llygaid iw gopio.<br>*Measure and draw an enlarging grid on a scale of 1:4 on the eye image for copying.* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/<br>GRADE<br><br>**HUNAN ASESU SELF ASSESSMENT** | • Barn personol am y darnau gwaith Celf wedi ei cyfiawnhau gyda rhesymau / *Personal opinion is well justified*<br>• Terminoleg pynciol wedi ei ddefnyddio'n gywir / *Subject terminology used correctly*<br>• Copio'r nodweddion yn berffaith o'r delweddau / *Copied the featured perfectly from images*<br>• Rheoli pensiliau ar bwysedd gwahanol I greu amrediad ton / *Controlled different pressure of pencils to create tone variation*<br>• Mesur yn gywir / *Correct measuring*<br>• Adnabod gwead ac asylwi manylder / *Recognise texture and observe detail* | Peintio nodweddion y gwyneb yn uniongyrchol yn y braslyfr A5 gyda dyfrlliw.<br><br>*Paint own facial features directly in the A5 sketchbbok using watercolour paints.* |

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 5 -6**/ *Week 5-6 Learning Outcomes*<br><br>**TASG ASESU 6-HUNAN BORTREAD GYDA GRID HELAETHU 1:2 A PORTREAD CHIAROSCURO**<br>Llunio grid 1" sgwar ar ben eu ffoto gwreiddiol A4 cyn llunio grid gwag A3 yn eu braslyfrau 1.4" sgwar. Copio'r delwedd fesul sgwar tan mae'r delwedd wedi ei drosglwyddo'n fanwl. Bydd y copi gyda'r cyfrannedd cywir.<br>Tynnu ffotograff hunan bortread mewn ystafell dywyll gyda golau yn disgleririo ar un ochr er mwyn ei argraffu yn ddu a gwyn I greu delwedd chiaroscuro. Copio'r ffotograff ddwy waith (un ar gyfer gwaith cartref) y llall ar gyfer ei lunio mewn golosg yn y braslyfr A3.<br><br>**TASG**-Portread dosbarth cyfan mewn drychau.<br><br>***ASSESSMENT TASK 6-SELF PORTRAIT USING ENLARGING GRID 1:2 AND CHIAROSCURO PORTRAIT***<br>*Draw a 1" square grid on top of the original A4 photo before drawing an empty 1.42 square grid on A3 sketchbook. Copy the image square by square until it's transferred in detail. The copy should be in the right proportion.*<br>*Take a self portrait photograph in a dark room with a light shinning on one side to be able to print two copies in black and white for a chiaroscuro image. Print a copy for homework and a copy to use with charcoal in the A3 sketchbook.*<br><br>***TASK****-A whole class portrait using mirrors.*<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Mesur a llunio grid helaethu 1:2. Mesur o fewn bob rhan o'r grid I drosglwyddo'r manylion yn y cyfrannedd cywir. *Measure and draw an enlarging grid 1:2. Measure within each square of the grid to copy detail in the right proportion.*<br>**Fframwaith Cymhwysedd Digidol** / Digital Competence Framework<br>Tynnu ffotograff o'r hunan bortread ai argraffu yn ddu a gwyn yn A3 a A4. *Take a self portrait photograph and print Out in A4 and A3.* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Gridiau wedi eu mesur yn gywir a'u llunio ar ongl sgwar / *Grids that are measured correctly using right angles*<br>• Ffotograff chlir wedi ei dynnu ar A4 I safon dda / *Clear photos printed in high quality*<br>• Marciau a thonyddiaeth yn cael eu lluniadu gyda rheolaeth ardderchog / *Marks and tone drawn using outstanding control*<br>• Yn adnabod y cysgod I'w dywyllu gyda'r golosg yn gywir / *Recognising the shadows darken using charcoal* | Ymchilio I dri arlunydd sydd yn arbennigo mewn hunan bortreadau ac argraffu enghreifftoau o eu gwaith.<br><br>Defnyddio cyfryngau gwyn I lunio yr hunan bortread chiaroscuro yn y braslyfr du.<br><br>*Researching and printing out examples of work from three artists that specialise in self portraits.*<br><br>*Use white mediums to draw the chiaroscuro self portrait in the black sketchbook.* |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 7 -8**/ *Week 7 -8 Learning Outcomes*<br><br>**TASG**-Dewis un arlunydd addas sydd yn creu hunan bortreadau I gymhwyso eu harddull. Ysgrifennu dadansoddiad estynedig amdanynt.<br><br>**TASG ASESU 7-ARBROFI YN ARDDULL ARLUNYDD PORTREAD**<br>Tynnu sawl ffotograff o hunan bortreadau gan ystyried cyfansoddiad ac arddull eu harlunydd dewisiol. Defnyddio rhaglen Serif Draw I ddangos gwaith golygu a newid effeithiau'r ffotograff. Dangos y camau creu o'r 'peintiadau digidol' er mwyn gallu eu disgrifio'n ysgrifennedig.<br><br>***TASK****-Research and Choose one suitable self portrait artist to apply their style personally. Write an analysis of their work using the description structure.*<br><br>***ASSESSMENT TASK 7-EXPERIMENT IN THE STYLE OF THE PORTRAIT ARTIST*** *Take a range of self portrait photographs to show similar compositions to the chosen artist. Use Serif Draw Programme to show editing work and photo effect changes. Show the production steps of the 'digital paintings' to write a description of them.*<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Ansoddeiriau Celf a therminoleg pynciol wedi ei ddefnyddio gyda Iaith a gramadeg cywir. *Adjectives and art terminology used correctly.*<br><br>**Fframwaith Cymhwysedd Digidol** / Digital Competence Framework<br>Ffotograffiau o ansawdd uchel a'u trosglwyddo o'r camera I'r cyfrifiadur. Rheoli Serif Draw I safon uchel. *High quality photos transferred from camera to computer. Control Serif Draw to a hugh standard.* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE<br><br>**HUNAN ASESU SELF ASSESSMENT** | • Barn personol wedi ei cyfiawnhau/ *Personal opinions justified*<br>• Amrywiaeth o dechnegau golygu effeithiol yn y cyd destun cywir / *Range of effective editing techiques in the right context*<br>• Peintiadau digidol yn dangos sgil a dealltwriaeth o liw, gwead a haenau / *Skillfull digital paintings show understanding of colour, texture and layering* | Yn y braslyfrau bach A5, peintio hunan bortread sydd yn adlweyrchu arddull eu arlunydd dewisiol.<br><br>*In the A5 sketchbooks, paint a self portrait that reflects the style of the chosen artist.* |

| **Deilliannau Dysgu** / *Learning Outcomes* | **Asesiad** / *Assessment* | **Meini Prawf Llwyddoant** / *Success Criteria* | **Gwaith Cartref** / *Homework* |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 9** -*11/Week 9-11 Learning Outcomes*<br><br>**TASG**-Cynllunio a chyfathrebu y darn terfynol gan ddefnyddio tudalen o ffotograffau, gwerthusiadau a disgrifiadau o gyfansoddiadau a chyfryngau/prosesau posib.<br><br>**TASG ASESU 8-DARN TERFYNOL O HUNAN BORTREAD**<br>Defnyddio'r amser o fewn 6 gwers I greu darn gorffennedig trylwyr sydd yn arddangos arddull yr arlunydd dewisiol a datblygiad cryf o'r uned portreadau.<br><br>***TASK***-*Plan and communicate the final piece by using a page of photos, evaluations and descriptions of compositions and possible mediums/processes.*<br><br>***ASSESSMENT TASK 8-FINAL SELF PORTRAIT***<br>*Use the time within 6 lessons to create a completed and thorough piece that demonstrates the chosen artists' style and a strong development of the portrait unit.*<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Ysgrifennu disgrifiad o'r prosesau creu a barn am y syniad gorau I'w ddatblygu. *Write a description of the creating process and an opinion about the developed best idea.*<br><br>**Fframwaith Rhifedd** / Numeracy Framework<br>Dangos dealltwriaeth/adnabod y defnydd o gofod yn y cyfansoddiad. *Show understanding/recognise the use of space in the composition.* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Cynllun trylwyr yn ystyried sawl elfen / *Thorough plan that considers many elements*<br>• Cyfansoddiad y darn yn yn greadigol ac yn dangos datblygiad o'r syniad gorau posib / *A creative composition that shows development of the best possible idea.*<br>• Cyfrwng/au addas wedi ei ddefnyddio i lunio gyda rheolaeth ardderchog / *Suitable medium/s used with excellent control.*<br>• Y darn terfynol yn adlewyrchu arddull yr arlunydd dewsiol yn gryf / *The final piece strongly reflects the chosen artists' style.* | Tynnu sawl ffotograff o bortread personol yn dangos cyfansoddiad debyg I'r arlunydd dewisiol.<br><br>*Take a range of self portrait photographs to show similar compositions to the chosen artist.* |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 12**/ *Week 12 Learning Outcomes*<br><br>**CYFLE I YMATEB A GWEITHREDU AR TARGEDAU TASG ASESU 5 a 6 ER MWYN GWELLA GRADDAU CYRHAEDDIAD GYDA 2AIL ASESIAD ATHRO.**<br><br>***OPPORTUNITY TO RESPOND AND IMPLEMENT ON TARGETS FROM ASSESSMNET TASKS 5 AND 6 TO IMPROVE ON GRADES WITH A 2nd ASSESSMENT***<br><br>**Fframwaith Llythrennedd** / Literacy Framework<br>Darllen yr asesiad athro yn ofalus I ddeall yr hyn sydd angen ei wneud I wella. *Read the teacher assessment carefully to understand what needs to be done to improve* | **ASESIAD ATHRO TEACHER ASSESSMENT**<br>GRADD/ GRADE | • Ysgrifennu yn y colofn ymateb o sut maent wedi gwella'r dasg / *Write how they're going to improve the task in the response column.*<br>• Dangos y gwelliannau yn glir o fewn y tasgau unigol / *Show the improvements clearly within the tasks* | Cwblhau unrhyw dasgau anorffennedig. Parhau I weithredu ar dargedau personol.<br><br>*Complete any outstanding tasks. Continue to improve on personal targets.* |